Ffosilau

Mae calchfaen wedi'i ffurfio o weddillion miliynau ar filiynau o greaduriaid môr bychain a oedd wedi suddo i waelod môr trofannol bas pan fuon nhw farw ychydig dros 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl, pan oedd Prydain ar y cyhydedd! Os edrychwch chi'n ofalus, efallai y gwelwch chi weddillion ffosilau rhai o'r creaduriaid hyn yn y calchfaen.

Gweddillion planhigion ac anifeiliaid sydd wedi cael eu cadw ydy ffosilau. Pan fydd anifail neu blanhigyn yn marw, gall syrthio i fwd neu dywod meddal a gwneud ôl neu farc yn y baw. Bydd y corff wedyn yn cael ei orchuddio â haen arall o fwd neu dywod. Dros amser, mae'r corff yn disgyn yn ddarnau ac yn cael ei hydoddi. Gall y mwd neu'r tywod galedu'n graig a chadw ôl y corff, fel bod siâp yr anifail neu'r planhigyn fel twll yn y graig. Ffosil ydy'r enw ar y twll yma.

Y ffosilau mwyaf cyffredin yn chwareli'n Mynydd Du ydy cwrel Lithostrotion, cregyn braciopod ac amonitau.